



DWP

Department for
Work and Pensions

Adran Gwaith
a Phensiynau

Ymgynghoriad cyhoeddus

Helpu teuluoedd sydd wedi gwahanu; sicrhau dyfodol plant

Crynodeb gweithredol

Rhagair y Gweinidog

1. Cred y Llywodraeth hon mai teuluoedd cadarn a sefydlog yw conglfaen cymdeithas gadarn a sefydlog. Dyna pam bod bron i £6 biliwn yn cael ei wario bob blwyddyn yn helpu rhieni unigol. Yn yr un ffordd ag y mae'n rhaid i rieni sy'n cyd-fyw gymryd cyfrifoldeb gweithredol a pharhaus am bob agwedd ar fagu eu plant, felly hefyd y rheini sy'n byw ar wahân i'w plant. Plant sydd ar eu colled pan na fydd rhieni yn cyflawni eu cyfrifoldebau.
2. Credwn fod y system cynhaliaeth plant bresennol yn rhoi gormod o bwyslais ar y wladwriaeth yn pennu cymorth ariannol ac nad oes digon o bwyslais ar helpu teuluoedd sydd wedi gwahanu ac sydd wrthi'n gwahanu i wneud eu trefniadau eu hunain. Amcangyfrifir yn ôl gwaith ymchwil mai dim ond un o bob pum rhiant sy'n gwneud eu trefniadau cynhaliaeth plant eu hunain.¹ Er gwaethaf y ffaith bod y Llywodraeth yn gwario bron i hanner biliwn o bunnoedd y flwyddyn ar y system cynhaliaeth plant, dim ond hanner y plant sy'n rhan o deuluoedd sydd wedi gwahanu sy'n cael budd o drefniadau cynhaliaeth effeithiol.
3. Nid yw system, sy'n ddiofyn yn golygu bod teuluoedd yn dilyn llwybr statudol drud, o fudd i blant, teuluoedd na chymdeithas. Mae'n cymryd cyfrifoldeb oddi wrth rieni a gall arwain at sefyllfaoedd gelyniaethol.
4. Ym mis Ionawr 2011, gwnaethom gyhoeddi Papur Gwyrdd ar ddyfodol y system cynhaliaeth plant² gan nodi ein syniadau o ran y posibiliadau ar gyfer y tirlun cynhaliaeth plant newydd; gan roi mwy o bwyslais ar helpu rhieni i wneud eu trefniadau eu hunain; a chan gyflwyno taliadau gwasanaeth ar gyfer defnyddio'r cynllun statudol i gynnig cymhelliant ariannol i rieni wneud eu trefniadau eu hunain.
5. Prif nod y Llywodraeth o ran cynhaliaeth plant yw galluogi'r sector gwirfoddol a'r sector cymunedol i weithio gyda rhieni i greu diwylliant mwy cydweithredol, gan roi cymorth o gam cynnar wrth eu helpu i lunio eu trefniadau eu hunain ar amrywiaeth o faterion sy'n effeithio ar eu plant yn ystod y broses o wahanu ac ar ôl hynny. Dim ond un mater o'r fath yw cynhaliaeth.
6. Dengys ein gwaith ymchwil fod ychydig dros hanner rhieni â gofal yr Asiantaeth Cynnal Plant a holwyd yn dweud y byddent yn gallu gwneud eu trefniant teuluol eu hunain gyda help gan ymgynghorydd hyfforddedig diduedd.³
7. I rieni na allant ddod i gytundeb cydweithredol, er gwaethaf cymorth, byddwn yn darparu gwasanaeth statudol newydd a fydd yn gyflymach ac yn fwy cyfredol na chynlluniau presennol yr Asiantaeth Cynnal Plant.

1 Yn seiliedig ar ddadansoddiad y Comisiwn a'r Adran Gwaith a Phensiynau o ddata gweinyddol yr Asiantaeth Cynnal Plant a nifer o wahanol arolygon: Arolwg y Llafurlu 2010, Astudiaeth Teuluoedd a Phlant 2008, Arolygon Opsiynau Cynhaliaeth Plant 2010 a 2011.

2 Yr Adran Gwaith a Phensiynau, 2011, *Atgyfnerthu teuluoedd, hybu cyfrifoldeb rhieni: dyfodol cynhaliaeth plant*, Cm 7990, Y Llyfrfa, ar gael yn: www.dwp.gov.uk/docs/child-maintenance-welsh.pdf

3 Wikeley, N., Ireland, E., Bryson, C. a Smith, R. (2008). *Relationship separation and child support study*. Adroddiad Ymchwil yr Adran Gwaith a Phensiynau 503.2 Rhagair y Gweinidog.

2 Rhagair y Gweinidog

8. Mae ein pwyslais ar ymyriad cynnar yn newydd ac mae ein cynlluniau i godi tâl ar rieni am ddefnyddio'r gwasanaeth statudol newydd yn seiliedig ar ddeddfwriaeth a basiwyd yn 2008 ac adroddiad Syr David Henshaw⁴, a oedd yn nodi'n glir ei bod yn bwysig codi tâl. Rydym wedi gwrandao'n ofalus ar bryderon pobl ac mae ein polisi yn adlewyrchu'r materion a godwyd yn unol â hynny, er enghraifft, drwy leihau'r ffi gwneud cais ar gyfer y gwasanaeth newydd a thrwy sicrhau ein bod yn cael y cydbwysedd cywir wrth godi tâl ar y rhiant â gofal a'r rhiant dibreswyl. Yn ogystal, byddwn yn sicrhau na chodir unrhyw ffi gwneud cais ar y rheini sy'n datgan eu bod wedi dioddef trais yn y cartref.
9. Rydym yn cydnabod bod y penderfyniad i godi tâl am y gwasanaeth yn benderfyniad anodd, ond credwn fod angen gwneud hynny er mwyn cymell pobl a all wneud eu trefniadau eu hunain i wneud hynny, a phwysleisio'r buddiannau ehangach y gall y mathau hyn o drefniadau eu darparu i blant.
10. Yn ogystal, bydd codi tâl am y gwasanaeth yn golygu y byddwn yn gallu darparu gwasanaeth statudol wedi'i dargedu'n well i rieni y mae gwir angen help arnynt wrth lunio trefniant cynhaliaeth a gorfodi'r trefniant hwnnw.
11. Mae'r papur hwn yn nodi dull gweithredu'r Llywodraeth ar gyfer y dyfodol, gan adeiladu ar ddeddfwriaeth sy'n bodoli eisoes. Mae hefyd yn lansio ymgynghoriad ar fanylion y broses o weithredu'r polisi sy'n deillio o'r rheoliadau drafft, a fydd yn sail i'r system codi tâl, a beth fydd yn digwydd i achosion sy'n bodoli eisoes. Nid yw'n ymgynghori ar y cwestiwn o godi tâl ei hun, yr ymgynghorwyd yn helaeth yn ei gylch eisoes.
12. Mae'n cyflwyno cyd-destun ehangach ar gyfer y newidiadau hyn, gan gynnwys beth rydym yn ei wneud i wella'r cymorth i deuluoedd sy'n gwahanu a theuluoedd sydd wedi gwahanu. Mae'n radical ac yn llym mewn mannau, ond credwn fod angen hynny er mwyn ail-lunio'r system a rhoi blaenoriaeth i les plant.



Maria Miller MP

Yr Is-Ysgrifennydd Gwladol Seneddol a'r Gweinidog Pobl Anabl
Gorffennaf 2012

⁴ Henshaw D, 2006, *Adfer y drefn cynnal plant: llwybrau i gyfrifoldeb*, Cm 6894, Y Llyfrfa.


Crynodeb gweithredol

1. Mae'r papur hwn yn lansio ymgynghoriad ar y rheoliadau drafft a fydd yn sail i'r system codi tâl, nid y cwestiwn o godi tâl ei hun, yr ymgynghorwyd yn helaeth yn ei gylch eisoes. Mae'r papur hwn hefyd yn ymgynghori ar yr hyn a fydd yn digwydd i achosion presennol yr Asiantaeth Cynnal Plant yn ystod y broses gau.
2. Yn 2011/12, gwariodd yr Adran Gwaith a Phensiynau bron i £6 biliwn ar roi cymorth i 600,000 o rieni unigol drwy fudd-daliadau sy'n gysylltiedig ag incwm gan gynnwys Cymhorthdal Incwm, Budd-dal Tai a Budd-dal Treth Cyngor. Roedd gwrthbwyso cost rhoi budd-daliadau i rieni unigol yn un o amcanion allweddol cynllun cynhaliaeth plant statudol gwreiddiol 1993, gyda'r gynhaliaeth a gasglwyd yn cael ei didynnu o hawl rhiant i fudd-dal ar sail 'punt am bunt'.⁵
3. Un o amcanion allweddol eraill cynllun 1993 oedd cynyddu nifer y plant a oedd yn destun trefniadau cynhaliaeth effeithiol, yn enwedig gan fod y ddarpariaeth o fewn system y llysoedd wedi'i chyfyngu'n bennaf i gyplau a oedd yn ysgaru.
4. Rhoddwyd y gorau i gynnwys trefniadau adennill budd-daliadau fel un o amcanion y system ym mis Ebrill 2010 a bellach ni chaiff y cymorth sylfaenol i rieni unigol ei effeithio gan unrhyw gynhaliaeth a gânt. O ganlyniad, mae'r cynllun statudol bellach yn canolbwyntio'n benodol ar ddarparu trefniadau cynhaliaeth effeithiol.
5. Ond, yn ein barn ni, mae gormod o rieni bellach yn gweld yr Asiantaeth Cynnal Plant fel yr opsiwn diodyn ar gyfer trefnu cynhaliaeth. Rydym o'r farn mai'r ffordd orau o sicrhau trefniant cynhaliaeth effeithiol, gan gynnwys cynhaliaeth ariannol (ond heb ei gyfyngu i hynny), yw helpu rhieni i lunio eu trefniadau eu hunain ble bynnag y bo'n bosibl, gyda chynllun statudol newydd, effeithlon ac effeithiol yn darparu rhwyd ddiogelwch lle y bo angen.

⁵ Mae Adroddiad Blyneddol yr Asiantaeth Cynnal Plant ar gyfer 1994-95 yn cofnodi mai targed yr Ysgrifennydd Gwladol ar gyfer 'budd-daliadau a arbedwyd' oedd £460m a llwyddwyd i arbed £19m yn ychwanegol ar ben y targed hwnnw.

6. Felly mae'n bryd ailbennu rôl y system cynhaliaeth plant statudol a'i gosod yng nghyd-destun polisi teuluol ehangach y Llywodraeth, sy'n seiliedig ar y dystiolaeth bod plant yn tueddu i fwynhau canlyniadau bywyd gwell pan fydd eu rhieni yn gallu rhoi cymorth a diogelwch drwy gydol eu plentynod. Dyna pam ein bod yn ail-lunio'r tirlun cynhaliaeth plant er mwyn sicrhau ei fod yn canolbwyntio ar helpu teuluoedd (gweler Ffigur 1).

Ffigur 1 Y tirlun cynhaliaeth plant newydd



Dengys y diagram hwn ein gweledigaeth ar gyfer y tirlun cynhaliaeth plant newydd; trefniadau cydweithredol fydd prif nodwedd ddelfrydol y tirlun newydd a bydd y sgwrs Porth yn sicrhau bod pobl yn ymwybodol o'r cymorth sydd ar gael y tu allan i'r gwasanaeth statudol.

Os bydd rhieni yn mynd drwy'r Porth i'r gwasanaeth statudol, dylid rhoi trefniant taliadau uniongyrchol o un rhiant i'r llall ar waith fel y norm.

Dim ond yn yr achosion hynny lle na fydd rhieni wedi gallu llunio trefniant cydweithredol a lle y bydd y rhiant dibreswyl wedi methu â thalu'n uniongyrchol y dylid eu cyfeirio i'r gwasanaeth casglu.

7. Rydym am weld gwasanaethau cymorth wedi'u cydgysylltu'n well ar gyfer teuluoedd sy'n gwahanu a theuluoedd sydd wedi gwahanu ledled Prydain Fawr ac rydym yn cydnabod bod y cyfrifoldeb dros gymorth i deuluoedd yn fater datganoledig. Felly rydym yn cydweithio'n agos â'r gweinyddiaethau datganoledig yng Nghymru a'r Alban i sicrhau bod ein cymorth i rieni sy'n gwahanu a rhieni sydd wedi gwahanu yn gyson â'r ddarpariaeth ddatganoledig ac yn ystyried system gyfreithiol annibynnol yr Alban yn llawn.

8. Er y gall y berthynas rhwng rhieni ddod i ben, nid felly eu cyfrifoldebau tuag at eu plant. Mae hyn yn golygu, yn y mwyafrif helaeth o achosion, ei bod yn briodol y dylai rhieni barhau i gydweithredu ac y dylai'r ddau chwarae eu rôl fel rhieni er mwyn sicrhau bod eu plant yn cael y cymorth ariannol a datblygiadol sydd ei angen arnynt, hyd yn oed os bydd eu perthynas hwy fel oedolion wedi dod i ben.
9. Mae dadansoddiad o lwyth achosion yr Asiantaeth Cynnal Plant yn awgrymu y gallai nifer fawr o'r 1.1 miliwn o achosion sydd o dan ofal yr Asiantaeth Cynnal Plant ar hyn o bryd o bosibl ystyried trefniant teuluol. Gwyddom fod tua 20 y cant o'r cleientiaid sy'n rhan o gynllun 2003, a gafodd asesiad cadarnhaol ac y mae'r Asiantaeth Cynnal Plant yn gofyn iddynt am daliadau, yn gwneud hynny drwy gynhaliath uniongyrchol.⁶ Mae tua deg y cant arall yn cydymffurfio'n llawn â'u taliadau yn rheolaidd, heb fod didyniadau yn cael eu gwneud o'u henillion neu eu budd-daliadau ar wahân. At hynny, dywed 50 y cant o gleientiaid y byddent yn cydweithio pe caent gymorth i wneud hynny.⁷
10. Rydym o'r farn bod y sector gwirfoddol a chymunedol yn allweddol wrth helpu teuluoedd sy'n gwahanu, ac felly gwnaethom sefydlu Grŵp Llywio o arbenigwyr o'r sector hwn er mwyn nodi sut y gallwn sicrhau y gall rhieni gael gafael ar wybodaeth a chymorth priodol cyn gynted â phosibl er mwyn eu helpu i barhau i chwarae rhan weithredol ym mywydau eu plant.
11. Mae'r Llywodraeth eisoes wedi cyhoeddi buddsoddiad o £20 miliwn i ddatblygu'r cymorth hwn ar gyfer cyfnod yr Adolygiad presennol o Wariant. Mae'r arian hwn yn ategu'r £45 miliwn y mae'r Llywodraeth yn ei wario yn 2012/13 i gefnogi teuluoedd a chydberthnasau.
12. Nid mater o sefydlu asiantaeth neu sefydliad newydd mohono, ond yn hytrach, roi rhaglen ar waith i hwyluso proses well o gyd-gysylltu a chyfeirio at y gwasanaethau cymorth sy'n bodoli eisoes, gan sicrhau y gall rhieni gael gafael ar ffynonellau gwybodaeth a chymorth lleol, yn ogystal ag amlygu gwefannau a llinellau cymorth sy'n bodoli eisoes a'u helpu i asesu eu blaenoriaethau.
13. Bydd yn grymuso rhieni i nodi a chael gafael ar gymorth wedi'i deilwra a fydd yn eu helpu i gydweithio'n effeithiol, a byddwn yn defnyddio nod ansawdd newydd er mwyn sicrhau bod rhieni yn hyderus y gallant ymddiried yn y sefydliadau y cânt eu cyfeirio atynt.
14. Bydd y buddsoddiad yn arwain at ddarparu cymhwysiad ar y we y gellir ei ddosbarthu ar-lein, hyfforddiant i sefydliadau gwirfoddol a chymunedol sy'n bodoli eisoes er mwyn iddynt allu cynnal sgysiau rhianta cydweithredol, gwell cymorth wyneb-yn-wyneb, a hyd at £14 miliwn ar gyfer y Gronfa Arloesedd newydd: Cymorth i Deuluoedd sydd wedi Gwahanu, a fydd yn profi ac yn gwerthuso prosiectau arloesol sy'n rhoi cymorth i rieni ac yn eu helpu i gydweithredu.

6 Yn seiliedig ar ddadansoddiad o ddata gweinyddol yr Asiantaeth Cynnal Plant.

7 Wikeley, N., Ireland, E., Bryson, C. a Smith, R. (2008). *Relationship separation and child support study*. Adroddiad Ymchwil yr Adran Gwaith a Phensiynau 503.

15. Er mai helpu rhieni i lunio trefniadau teuluol cydweithredol yw prif ffocws strategaeth y Llywodraeth, byddwn hefyd yn cyflwyno Gwasanaeth Cynhaliaeth Plant statudol newydd i rieni na allant lunio trefniant o'r fath.
16. Os bydd angen i rieni ddefnyddio'r gwasanaeth hwn, rhaid iddynt gael sgwrs, lle y gallant wneud hynny a'i bod yn ddiogel iddynt wneud hynny, a fydd yn egluro'r amrywiaeth o opsiynau cynhaliaeth plant sydd ar gael iddynt. Diben y 'sgwrs Porth' hwn fydd helpu darpar ymgeiswyr i ystyried dewisiadau amgen cyn bwrw ati i wneud cais. Yn y pen draw, penderfyniad yr ymgeisydd fydd pa un a yw am barhau â'r cais ai peidio.
17. Bydd ffi unigol o £20 a gaiff ei thalu ymlaen llaw er mwyn gwneud cais i'r Gwasanaeth Cynhaliaeth Plant statudol newydd, na chaiff ei chymhwyso os bydd yr ymgeisydd wedi datgan ei fod wedi dioddef trais yn y cartref, neu os bydd o dan 18 oed. Diben y tâl hwn yw annog rhieni i ystyried pa un a oes wir angen iddynt ddefnyddio'r gwasanaeth statudol, gan roi cyfle i ni ganolbwyntio adnoddau ar deuluoedd y mae gwirioneddol angen ymyriad y llywodraeth arnynt.
18. Bydd y Gwasanaeth Cynhaliaeth Plant newydd yn defnyddio gwybodaeth Cyllid a Thollau EM am incwm trethadwy, ynghyd â data arall, i gyfrifo'r swm o gynhaliaeth y mae'n ofynnol i riant dibreswyl ei dalu. Byddwn yn diweddarau'r cyfrifiad gan ddefnyddio data incwm newydd, heb unrhyw gost ychwanegol i'r ymgeisydd, bob blwyddyn ar gyfer oes yr achos.
19. Yn y mwyafrif helaeth o achosion, byddwn yn rhoi'r cyfle i'r rhiant dibreswyl dalu'r rhiant â gofal yn uniongyrchol, ac felly ni fydd unrhyw daliadau neu ffioedd pellach yn cael eu codi ar y naill riant na'r llall. Fodd bynnag, os bydd y Gwasanaeth Cynhaliaeth Plant o'r farn nad yw'r rhiant dibreswyl yn debygol o dalu, neu os bydd y rhiant dibreswyl yn methu â thalu'r swm llawn yn brydlon, byddwn yn cymryd camau brys i orfodi taliadau cynhaliaeth drwy'r gwasanaeth casglu.
20. Bydd y gwasanaeth casglu yn codi ffi o 20 y cant ar y rhiant dibreswyl. Ar hyn o bryd, ar gyfer achos a gafodd asesiad cadarnhaol gyda rhwymedigaeth gyfartalog o £33.40, byddai hyn yn cyfateb i £6.68 yr wythnos, a allai greu cymhelliant cryf iddynt dalu'r swm llawn yn brydlon yn uniongyrchol i'r rhiant arall.
21. O dan y system bresennol, mae'n cymryd cryn dipyn o amser ac ymdrech i fynd ar drywydd taliadau a fethwyd. Mae gormod o rieni dibreswyl yn aros i'r system eu dal. Mae cymryd camau gorfodi yn ddrud ac ar hyn o bryd, trethdalwyr sy'n talu'r gost. Dyna pam y byddwn hefyd yn cyflwyno tâl sefydlog am gamau gorfodi wedi'u diffinio'n glir y mae'n rhaid i ni eu cymryd, er enghraifft, sefydlu Gorchymyn Didynnu o Enillion.
22. Gall achosion cynhaliaeth plant bara am sawl blwyddyn ac felly mae angen codi ffioedd casglu er mwyn rhoi cymhelliant ariannol parhaus i'r ddau riant gydweithredu neu wneud taliadau'n uniongyrchol. O ganlyniad, caiff ffi llawer is ond angenrheidiol o saith y cant ei didynnu o'r gynhaliaeth a gaiff ei thalu i'r rhiant â gofal. Ar hyn o bryd, ar gyfer achos a gafodd asesiad cadarnhaol gyda rhwymedigaeth gyfartalog o £33.40, byddai hyn yn cyfateb i £2.34 yr wythnos.

23. Er mwyn sicrhau ein bod yn rhoi'r cyfle i bob rhiant sydd wedi gwahanu gydweithredu, ac er mwyn rhoi dewis newydd i'r bobl hynny a gysylltodd â'r Asiantaeth Cynnal Plant o ganlyniad i'r orfodaeth hanesyddol ar rieni â gofal sydd ar fudd-daliadau i wneud cais, rydym yn bwriadu dod â'r rhwymedigaeth ar bob un o achosion presennol yr Asiantaeth Cynnal Plant i ben yn raddol dros gyfnod o dair blynedd.
24. Caiff achosion yr ymdrinnir â hwy mewn ffordd glerigol neu 'oddi ar y system' ar hyn o bryd eu cau yn gyntaf. Y rheswm am hyn yw eu bod yn llawer mwy costus i'r trethdalwr eu cynnal, a'i bod yn debygol bod rhieni sy'n gysylltiedig ag achosion o'r fath wedi dioddef lefel gwasanaeth is. Cynigir y dylid cau pob achos arall ar sail 'yr hynaf gyntaf', gan olygu mai'r achosion hynny – lle mae plentyn cymwys i'w gynnal o hyd – a gofrestrwyd gyntaf fydd nesaf i gael budd o'n diwygiadau.
25. Byddwn yn rhoi'r cymorth angenrheidiol i rieni yn yr achosion hynny naill ai i lunio eu trefniadau teuluol eu hunain, neu i wneud cais i'r Gwasanaeth Cynhالياeth Plant newydd. Ein bwriad yw dechrau'r broses hon drwy gysylltu â'r don gychwynnol o rieni yr effeithir arnynt yn ystod haf 2013.
26. Er ein bod yn bwriadu dod â'r rhwymedigaeth gynhالياeth barhaus i ben ymhob un o achosion presennol yr Asiantaeth Cynnal Plant dros gyfnod o dair blynedd, bydd ein strategaeth ôl-ddyledion arfaethedig yn ein galluogi i ganolbwyntio ar fynd ar drywydd taliadau cynhالياeth sy'n ddyledus i blant yn yr achosion hynny lle y mae'n briodol gwneud hynny. Ein bwriad yw parhau â'r camau hyn ymhell wedi i gynlluniau'r Asiantaeth Cynnal Plant gau. Er bod systemau'r Asiantaeth Cynnal Plant o bosibl wedi bod yn ddiffygiol, nid yw hynny'n esgusodi rhieni o'u cyfrifoldeb i dalu am eu plant eu hunain.
27. Rydym yn gofyn am sylwadau o ran sut y dylid rhoi trefniadau codi tâl a chau achosion ar waith, ac yn annog yn gryf bartïon â diddordeb i gyflwyno eu barn yn hyn o beth. Fodd bynnag, nid ydym yn ymgynghori ar yr egwyddor o godi tâl ei hun, gan yr ymgynghorwyd yn helaeth ynghylch hyn eisoes.
28. Nodir amserlen gweithredu ar gyfer cyflwyno system codi tâl a'r broses cau achosion yn Atodiad A.
29. Yn olaf, rydym yn newid y derminoleg a ddefnyddir gennym yn y cynllun statudol i adlewyrchu'r ffaith mai prif rôl ein cleientiaid yw eu rôl fel rhieni a bod yn rhaid i'r gwasanaeth a ddarperir roi blaenoriaeth i fuddiannau cleientiaid. Bydd y Gwasanaeth Cynhالياeth Plant yn defnyddio'r termau y 'rhiant sy'n talu' a'r 'rhiant sy'n cael cynhالياeth plant'. Fodd bynnag, at ddibenion y ddogfen hon, rydym wedi defnyddio'r derminoleg a ddefnyddiwyd o fewn deddfwriaeth, sef 'rhiant dibreswyl' a 'rhiant â gofal'.

ISBN 978-1-78153-112-9

(h) Hawlfraint y Goron 2012
Cyhoeddwyd gan yr Adran
Gwaith a Phensiynau
Gorffennaf 2012

www.dwp.gov.uk/cymraeg